# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Chwefror 2023 – Cyfrol 8- Rhifyn 5

## Newyddion da i broject y siop gymunedol leol

Ar ôl misoedd o waith gan y cyfarwyddwyr, bythefnos cyn Dolig daeth y newydd yr oeddem wedi bod yn disgwyl amdano. Er bod oedi o ddau fis wedi bod cyn y penderfyniad, daeth y newydd fod ein cais am grant i gynorthwyo prynu y Swyddfa Bost ac adfywio'r hen siop wedi bod yn llwyddiannus.

Cawsom y swm llawn o £200,000 gan y Gronfa Perchnogaeth Gymunedol, rhan o Gronfa Ffyniant Bro Llywodraeth y Deyrnas Unedig, sydd yn golygu ein bod nawr dros hanner ffordd at y cyfanswm yr ydym yn ceisio ei godi. Roedd ein prosiect yn un o bump yn unig a fu'n llwyddiannus yng Nghymru. Mae ceisiadau grantiau eraill wrthi yn cael eu cysidro a rydym yn disgwyl am y penderfyniad.

Rydym hefyd yn dal i obeithio lansio ein Cyfraniadau Cymunedol yn y dyfodol agos a byddwn yn ddiolchgar o glywed gan unrhyw un sydd â diddordeb mewn cyfrannu. Anfonwch e-bost at emyrmorris@btinternet.com.

Bore Iau 12fed Ionawr daeth Ysgrifennydd Gwladol, David T C Davies AS draw i Landyrnog i weld y prosiect. Roedd y cyfarfod wedi ei drefnu yn yr Ystafelloedd Coco. Daeth nifer o'r gymuned, y Cyngor Cymuned a'r Cyngor Sir, a grwpiau cefnogi'r prosiect, ynghyd â rhai o ddisgyblion Ysgol Bryn Clwyd i ymuno â'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Aelod Seneddol Dr James Davies AS. Bu iddo glywed stori'r prosiect gan y cyfarwyddwyr cyn mynd draw i weld y Swyddfa Bost ac adeilad y siop.

Recordiwyd y digwyddiad gan y BBC ar gyfer eitemau newyddion a'r wasg.

Aeth disgyblion Blwyddyn 6 i gynrychioli Ysgol Bryn Clwyd yn y cyfarfod ynghylch siop gymunedol y pentre. Dyma nhw'n cyfarfod ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, David T.C. Davies, a buon nhw'n trafod eu diddordeb mewn cynllunio logo i'r siop.



Llandyrnog Shop
Village Shop & Post Office

Gwefan y siop: www.llandyrnogshop.com
Tudalen Facebook: Llandyrnog Shop
Cyfrif Twitter: @ShopLlandyrnog

**Cofiwch roi cyfraniad yn y blwch casglu wrth nôl eich copi o'r *Llais* o swyddfa'r post, os gwelwch yn dda. Neu rhowch gyfraniad i'ch dosbarthydd. Diolch!**

# Pytiau newyddion y pentre

**Llongyfarchiadau calonnog i...**
... Elwyn ac Olga, Ger y Llan ar ddathlu 68 mlynedd o fywyd priodasol ar 1 Ionawr;
... Daniel Lloyd ar gael ei ethol yn Gyfarwyddwr Cyswllt Dros-dro yn Theatr Clwyd;
… Morgan ar enedigaeth Poppy Isabelle, chwaer fach i Ruby, wyres i Russ a Selina a gor-wyres i Jackie a Jill;
… Adam ac Amy ar enedigaeth Lenni June, chwaer i Savannah ac wyres i Jackie.

***Pob dymuniad da*** i Gladys Evans oedd yn 90 oed; i Rhian, Rhiwbebyll Bella ar gyrraedd oed arbennig, ac i Paul Grange, Parc Ty'n Llan a Menna Davies, Cilgwyn, am wellhad buan.

***Cydymdeimlwn*** â Frances (Hen Gapel gynt) a'r teulu o golli ei gŵr, John.


## Blue Hand Mowers
Repair and servicing of all garden machinery

Lawn mowers and lawn tractors
Chain saws
Hedge cutters
Strimmers
Disc cutters
Quad bikes
Leaf blowers
Hand tools

Collection and delivery service available

Situated on 'Blue Hand Corner' or find us on Google
www.bluehandmowers.co.uk
enquiries@bluehandmowers.co.uk
☎0775 20 35 462


***Goleuadau Nadolig*** Roedd yn hyfryd cerdded o gwmpas y pentre wedi iddi nosi adeg y Nadolig a gweld cymaint o bobl wedi mynd i drafferth i addurno eu tai â goleuadau o bob lliw a llun. Rhaid diolch yn ddiffuant eto i Glyn a Carol Davies a'r teulu am y rhodd o goeden Nadolig yr Eglwys, ac i David Weyman am ei chludo o Lanfair TH, ei gosod a'i haddurno gyda Bryn, Emyr a Merfyn. Diolch i Wil a Shay Parry am oleuadau lliwgar y Neuadd ac i Bryn am addurno arosfannau bysus y pentre a sedd croesffordd Celynnog.

***Dartiwr o fry!***
Bu Nick Hales, Maes Clwyd yn chwarae mewn cystadleuaeth dartiau i dîm Sir Clwyd yn erbyn Swydd Bedford yn ddiweddar. Fel y dywedodd Nick, 'Roeddwn yn falch o wisgo crys y Sir, ond yn anffodus colli wnes i 3–1.  Ond mi ges i sawl cyfle i ennill ym mhob gêm, ond y dyblau'n fy ngadael i lawr, ond sgoriais 116 hyfryd i ennill un rownd. Mi wnes ffrindiau newydd hefyd!' Da iawn Nick, a phob lwc i'r dyfodol!






**CROHN'S & COLITIS UK**

## Bore coffi

**Neuadd y Pentre**
**Dydd Sadwrn, 25 Chwefror, 10.00–11.15**

Derbynnir yn ddiolchgar roddion tuag at y stondin cynnyrch cartref a gwobrau raffl.
***Croeso cynnes i bawb!***

Mae clefyd Crohn a cholitis briwiol – *Ulcerative Colitis*, yn glefydau llid y coluddyn – *inflammatory bowel diseases*, ac maen nhw'n gallu achosi briwiau poenus iawn. Maen nhw hefyd yn achosi poen yn y bol, dolur rhydd aml a brys, chwyddo yn y cymalau, wlserau yn y geg, blinder llethol, anaemia, colli pwysau, diffyg archwaeth at fwyd, a llid yn y llygaid.

Yng Nghymru yn 2021, roedd colitis briwiol a chlefyd Crohn ar tua 1 o bob 117. Hynny yw, 23,000 o bobl. Roedd fy mam yn dioddef, yng ngwir ystyr y gair, gan glefyd Crohn. I weld effeithiau'r clefyd hwn ar fywyd Amy Dowden, un o'r dawnswyr yn y gyfres deledu *Strictly Come Dancing*, gwyliwch *Strictly Amy: Crohn's and me* ar BBC iPlayer.

Crohn's & Colitis UK yw prif elusen y Deyrnas Unedig sy'n gweithio i wella rhoi diagnosis o'r clefydau a'u trin, ariannu ymchwil i gyffuriau i'w gwella, a chodi ymwybyddiaeth ohonyn nhw.

Dewch i'r bore coffi, mwynhewch sgwrs dros baned, a chefnogwch yr achos haeddiannol hwn.

Diolch,
*Anwen Davies*

### Rhifau ffôn defnyddiol

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101
Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068
Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)
Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Mercher | 1af | Cyfarfod pwyllgor Llais Llandyrnog 7pm |
| Llun | 6ed | Trefoil Guild, 2pm |
| Mawrth | 7fed | Clwb Llyfrau 10am |
| Mercher | 15fed | Tuesday Club 2pm |
| Mawrth | 21ain | Clwb Llyfrau10am |
| Llun | 27ain | Cwiltio 7pm |

*I logi'r Ystafelloedd Coco, anfonwch e-bost at Mrs Emily Williams: emilylloyd1@tiscali.co.uk*

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Sadwrn | 4ydd | Grŵp crefftau 9.30 – 4 pm |
| Llun | 6ed | Brownies 5.30 – 7pm<br>Côr 7.30 – 9.30pm |
| Mawrth | 7fed | Sefydliad y Merched 7.30 – 9.0pm |
| Sul | 12fed | Llan Llanast 3.30 – 5pm |
| Llun | 13eg | Brownies 5.30 – 7pm<br>Côr 7.30 – 9.30pm |
| Llun | 20fed | Côr 7.30 – 9.30pm |
| Sadwrn | 25ain | Bore coffi Crohn's & Colitis UK 10 – 11.15am |
| Sul | 26ain | Parti pen-blwydd |
| Llun | 27ain | Brownies 5.30 – 7pm<br>Côr 7.30 – 9.30pm |

### Gwasanaethau mis Chwefror yn Eglwys St Tyrnog

| | | |
|---|---|---|
| 5ed | 11.15 | Cymun bendigaid |
| 12fed | 11.15 | Cymun bendigaid |
| | 15.30 | Llan Llanast yn Neuadd y Pentre |
| 19eg | 11.15 | Boreol weddi |
| 26ain | 11.15 | Cymun bendigaid |

### Oriau agor Swyddfa'r Post

**Dyddiau Llun, Mawrth, Iau, Gwener**
**9am–12pm, 2pm–5pm**
**Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30**
**01824 790310**

# Dod i adnabod Sylvia Evans, Maes Clwyd



**Rhowch ychydig o hanes eich blynyddoedd cyntaf i ni Sylvia.**
Wel, yn Llandyrnog roedd y rheiny. Cefais fy ngeni yn nhŷ taid a nain yn Sgwâr yr Eglwys, ond symudodd dad a mam, Alice a Charles Pierce, yn fuan iawn i gael eu lle eu hunain yn un o'r 4 tŷ cyngor cyntaf i'w hadeiladu yn Llandyrnog, ym Maes Llan, Ffordd Llangwyfan – tua 1937/38. Roeddwn i'n un o bedwar o blant – tair merch ac un bachgen, Eric.

Pan oeddwn i'n 5 oed, mynd i Ysgol y Llan (Yr Hen Ysgol) a setlo i lawr yn syth gyda ffrindiau da a ddaeth yn ffrindiau oes i mi. Cael llawer o brofiadau gwahanol, e.e. yr eira mawr yn '47 a ffordd Glanrafon yn eira o wrych i wrych, a chael hwyl yn cerdded ar y gwrychoedd. Dim ond chwech ohonon ni yn yr ysgol am 3 wythnos a finne'n difaru mod i'n byw mor agos! Hefyd, mynd i lawr efo'r tîm dawnsio i Garnifal y Rhewl yn y 50au. Roedd ymarfer côr bob nos Iau ac Ysgol Sul bob wythnos efo'r Eglwys. Mi ges i 'medyddio yn Eglwys Llandyrnog, a dw i wedi bod yn perthyn iddi ers hynny! Wedyn pasio'r 11+ a ffwrdd â fi i Ysgol Ramadeg Dinbych – doedd hon ddim byd tebyg i ysgol fach y pentre' – wnes i ddim setlo yno o gwbwl. Ar y ffordd adre ar y bws, roeddwn i'n casáu'r ffaith mod i'n gorfod mynd adre i wneud gwaith cartref a'r rhan fwyaf o'm ffrindiau'n cael mynd allan i chwarae'n syth ar ôl dod adre lawr wrth yr afon neu Cae Nant.

Yn ystod gwyliau hir yr haf, dyna le bydden ni – i lawr wrth yr afon yn nofio a chwarae ar y lan. Roeddwn i wrth fy modd! Ond mi ges i gymaint o fraw un haf yn yr afon nes i mi stopio nofio'n gyfan gwbwl – penderfynodd Den Langford a'm brawd Eric fy herian dipyn a chadw 'mhen i o dan y dŵr am chydig eiliadau siwr braidd. Ond roedd hynny'n ddigon – es i byth eto!
Roedd Dad yn boblogaidd efo plant y pentre' gan ei fod yn dda iawn am wneud a thrwsio unrhyw fath o farcut. Byddai cnoc ar y drws yn amal a rhyw blentyn yno'n gofyn iddo am help gyda'i farcud. I ddeud y gwir, roedd o'n dda iawn efo'i ddwylo – byddai'n gwneud awyrennau bach o bren, a batiau criced hefyd yn ei amser sbâr, a byddai'n mynd â ni i Gae Nant, a'n dysgu ni sut i hedfan y barcutiaid.

***I ble'r aethoch chi ar ôl gadael yr ysgol?***
Mi adewais yr Ysgol Uwchradd mor fuan ag oedd bosib a chael gwaith ym Monfa, lle'r oedd y Swyddfa Bost wedi ei lleoli ers 1934. Ar ôl i Cledwyn Hughes fy nysgu, mi ges weithio yn y gyfnewidfa ffôn yno, gan gysylltu cwsmeriaid efo'i gilydd. Ar ôl blwyddyn mi basiais i arholiad y Gwasanaeth Sifil a mentro i le dipyn mwy – i Ruthun. Am dros naw mlynedd, mi feicies i'n ôl ac ymlaen i Ruthun bob dydd drwy bob tywydd!

***Beth oedd yna i'w wneud fel merch ifanc gyda'r nos yn Llandyrnog?***
Roedd 'na ddigon o weithgareddau yn y pentre' ac roeddwn i wrth fy modd yn mynd i'r Clwb Merched yn yr hen Neuadd. Mam Olga, Mrs Gwladys Ffoulkes oedd wedi dechrau'r Clwb i Ferched ifanc rhwng 14–30 yn niwedd y pedwardegau ac roedden ni'n cael gwneud llawer o wahanol bethau difyr ac addysgiadol – dosbarth dawnsio, cael mynd i weld dramâu gan y Cyngor Celfyddydau, helpu i godi arian, mynd o gwmpas i ganu carolau a chael partïon da ddiwedd tymor.

Roedd mynd mawr ar y dawnsio yn y Neuadd, a phawb o'r fro yn tyrru yno. Pasg 1955 oedd hi, a bachgen ifanc golygus o'r pentre' adre ar 'leave' o'r Llynges – Glyn Evans, Tan yr Onnen oedd hwnnw! Mi fetiodd Nerys Wynne na fedren i gael Glyn i ofyn i mi fy

# Dod i adnabod Sylvia Evans: parhad

nghymryd i adre o'r ddawns. Mi enilles i'r bet, ac fel dywed y Sais – mae'r gweddill yn hanes!

***Felly, priodi a setlo i lawr?***
Ia, efo Dad a Mam i ddechrau nes daeth Kim i wneud ein teulu'n gyflawn ddechrau'r chwedegau. Bu Kim yn sâl yn yr Ysbyty efo niwmonia am chwe wythnos wedi ei geni, a rhoddais i'r gorau i weithio. Y Dolig hwnnw, cawsom dŷ Cyngor ym Maes Llan cyn setlo yn 1 Maes Clwyd, a finnau'n gweithio fel cymhorthydd cartref.

Gan fod Mrs Hughes, y Post yn sâl mi fues i'n gweithio eto yn y Swyddfa Bost. Erbyn 1968, roedd y Swyddfa Bost wedi symud i Siop Clwyd Wynne, drws nesa i'r *Golden Lion*. Es i yno, dim ond i roi Dorice ar ben ffordd ynglŷn â sut i redeg pethe. Ond mi arhoses i yno am 30 mlynedd fel cynorthwyydd yn y Swyddfa Bost. Mi fues i'n Llywodraethwr yn Ysgol Bryn Clwyd am ddeuddeng mlynedd ac yn aelod o Bwyllgor Plant a Phobl Dan Anfantais am ddeugain mlynedd – dim ond chwech oedd ar y pwyllgor!

***Oedd yna amser sbâr i hamddena?***
Oedd wir. Mi fues i wrthi am oriau lawer yn helpu Glyn i baratoi ar gyfer arddangosfeydd llysiau a ffrwythau, dahlias, blodau Mihangel a phys pêr mewn Sioeau Gardd ac Amaethyddol, yn y pentre' a thu hwnt. Roedd y tŷ yn amal yn llawn gwellt, cortyn, nionod a thatws, a phob math o arddangosion!

Roeddwn yn mynd sawl tro hefyd yn gwmpeini i Glyn pan âi o i saethu colomennod clai – yn amal iawn cael fy machu i wneud te i bawb! Cyn i Glyn ymddeol, roeddwn i hefyd yn ei helpu o gyda gwaith coedwigaeth, a'i helpu i ffensio – fel arfer yn ei helpu i gario'r pyst bychain rhwng y polion mawr! Un tro, mi lithrodd fy nhroed i lawr twll cwningen, ond, diolch byth, roedd gen i fŵts go gryf ar fy nhraed wnaeth f'arbed rhag torri 'nghoes!! Erbyn canol y nawdegau, fe ymddeolodd Glyn a chawsom fwy o amser i hamddena.

***Ar ôl colli Glyn bymtheng mlynedd yn ôl, beth ydy eich hoff ddiddordebau erbyn hyn?***
Dw i wrth fy modd efo jig-so newydd neu bos croesair! Ac mi ddweda wrthych chi, mi rydw i'n ddarllenydd brwd iawn ac wrth fy modd efo nofelau lle mae'r ditectif ar ôl y troseddwr. Un o fy hoff awduron ydi Peter May – mae o'n wych. Er enghraifft, mae ganddo gyfres o lyfrau o dan y teitl '*The Enzo Files*' sy'n seiliedig ar *Enzo Macleod*, cyn wyddonydd fforensig, sy'n datrys achosion dyrys drwy ddefnyddio dulliau gwyddonol diweddaraf – rhagorol!! Roeddwn i'n arfer mwynhau garddio'n fawr iawn, ond dim cymaint rwan.

***Do, mi gawsoch chi hen godwm cas iawn ychydig o flynyddoedd yn ôl, ond rydech chi wedi dangos dewrder ac amynedd wrth wella'n ara deg***.
Do, mi syrthies i yn y fynwent, a tharo fy mhen ar garreg fedd, ac mi wnaeth Elis Morris, chware teg iddo, redeg o siop y bwtsiar ac edrych ar fy ôl i am sbel yn y dechrau. Roedd pawb mor dda efo fi – diolch i chi i gyd.

*Diolch yn fawr Sylvia am rannu eich profiadau gyda ni, a phob dymuniad da i'r dyfodol.*



*Sylvia gyda'i hwyrion Ben a Mathew*

# Gyrru ar eira a rhew

Atgofion o aeafau'r gorffennol – rydw i wedi reidio fy meic modur ym mhob tywydd, ond yr un fwyaf cofiadwy oedd diwedd y 1970au. Cychwyn am adre'n gynnar o Wrecsam gan fod y rhagolygon yn dweud bod eira ar y ffordd – a chanfod fod popeth yn wyn yn Llandegla a'r lluwchfeydd eira yn uwch na fi! Troi'n ôl neu fynd yn fy mlaen? Penderfynais fynd ymlaen yn ara deg. Wrth gwrs, roeddwn i'n gwisgo'r dillad addas i reidio beic modur – dillad thermol, lleder a gwrth-ddŵr. Ymlaen â fi'n ofalus – dim problem, cadw at draciau teiars cerbydau oedd wedi mynd o'm blaen. Aeth popeth yn iawn nes i ryw gar oedd y tu ôl i mi drio 'mhasio i, a chodi lluwch o slot eira oedd ar ganol y ffordd, drosta i! Mi syches i fy feisor jyst mewn pryd i osgoi landio mewn lluwch mawr o eira!

Nawr ein bod ni yng nghanol gaeaf, roeddwn i'n meddwl y byddai ambell i gyngor ar sut i ddreifio mewn amgylchiadau gaeafol fel hyn yn fuddiol. Dyw'r digwyddiad uchod ddim yn esiampl o'r ffordd orau i drin y rhai mwy bregus sy'n gyrru ar y ffordd, ond gan 'mod i bellach yn gyrru car fy hunan, galla i ddeall y problemau posib.



Trio osgoi dreifio adeg eira a rhew fyddai'n ddelfrydol, ond os oes rhaid i chi fynd allan, mae 'na ambell i beth y medrwch chi fynd efo chi: cit addas rhag ofn bydd rhaid i chi stopio neu fod mewn argyfwng – tortsh, crafwr rhew, rhaw (mae rhaw blygu gen i, ond heb ei defnyddio eto, ond mae yno rhag ofn!), blanced, dadrewydd, siaced lachar, triongl rhybudd, a chymerwch ffôn symudol wedi ei wefru'n llawn a gwefrydd, chydig o fwyd (bwyd defnyddiol fel creision, bisgedi, cnau neu fferins na fydd yn difetha) a diod (potel o ddŵr neu fflasg boeth). Gwnewch yn siŵr fod y sgrin wynt a'r lampau'n glir (peidiwch â gyrru i ffwrdd gyda thwll bach yn unig yn y ffenest i weld trwyddi, glanhewch y ffenestri'n iawn!). Buan bydd ewyn halen yn cuddio'r prif lampau blaen, ac os ydych chi'n teithio'n bell, stopiwch a glanhau'r lampau blaen ac ôl.

Dim ond y teiars sy rhyngoch chi ag wyneb y ffordd, felly gwiriwch bwysedd y teiars yn rheolaidd a gofalu bod digon o wyneb arnyn nhw – 1.6mm ydi'r lleiafswm cyfreithiol, ond ystyriwch eu newid pan fyddan nhw o dan 3mm – dyna'r perfformiad gorau mewn tywydd gwlyb. Ystyriwch deiars gaeaf, sydd o ansawdd mwy meddal, ac sy'n rhoi gwell gafael mewn tywydd oer.

Gadewch mwy o bellter stopio, gall hi gymryd 10 gwaith yn hirach i stopio mewn amodau rhewllyd, yn enwedig lawr allt. Pan fydda i'n teithio lawr ein ffordd gul ni mewn eira, byddai'n dweud wrthyf fy hun ''paid brecio, paid brecio, paid brecio!'', ar ôl dysgu'r ffordd anodd pan sgidiodd y car i'r ochr wrth gloi'r olwynion ôl am eiliad. Os ydi'r car yn sgidio, peidiwch â brecio a throwch yr olwyn lywio i mewn i'r sgid. Bydd hyn yn galluogi'r olwynion unioni unwaith eto a chael y car yn ôl dan reolaeth.

Mae teithio fyny allt mewn rhew yn gallu bod yr un mor anodd â mynd i lawr. Mae cychwyn yn yr ail gêr yn rhoi mwy o bŵer tynnu, ac ar ôl symud, ewch i gêr uwch, a pheidiwch â gwneud unrhyw beth dramatig fel troi neu stopio os yn bosib!

Ond y dewis gorau ydi peidio â gyrru yn yr eira neu rew o gwbl, os nad oes raid!

*Gwen Butler*

# Yr Olwyn Catrin ac Eglwys Tyrnog?

Wyddoch chi fod ’na dân gwyllt yn Eglwys Llandyrnog – yr Olwyn Catrin?

Gogoniant y ffenest ddwyreiniol 15fed Ganrif yn Eglwys Llandyrnog ydi llun canolog o Iesu Grist ar y groes, a thair sagrafen (*sacrament*) yn llifo o’i anafiadau – yr Eneiniad Olaf, Ordeiniad, Priodas ac, o bosib, pedwaredd sagrafen – sef Penyd. Hi ydi’r unig ffenestr Sagrafen yng Nghymru a dim ond un o naw ym Mhrydain Fawr. Cafodd ei hadnewyddu gan wneuthurwr gwydr lliw enwog o’r enw Charles Eamer Kempe yn 1876 a ddyluniodd dros bedair mil o ffenestri lliw mewn eglwysi ledled y Deyrnas Unedig a thu hwnt. Er bod darnau ar goll, aeth Kempe ati i ddefnyddio dim ond yr hen ddarnau gwydr oedd yn dal ar y ffenest ei hun, a darnau yng nghist yr Eglwys, ac o dan balmant y Gangell. Ac eto yn y 21G cafodd y ffenest ei datgymalu’n ofalus, a’i hanfon i Barley Studio yng Nghaerefrog i’w hadnewyddu yn 2001.

Beth sy’n ddiddorol ydi’r ffenestri bach o saint o’r 3G–7G Ganrif uwchben y rhain i gyd. O’r chwith i’r dde, mae ffenest Santes Marchell (Eglwyswen, chwaer i Sant Tyrnog), wedyn Santes Gwenfrewi (Treffynnon), Sant Asa(ff), (pentre’ Llanasa, ac ail Esgob Llanelwy ar ôl Sant Cyndeyrn), a’r ddwy ffenestr uchaf yn y canol – Y Forwyn Fair yn cael ei choroni gan Iesu’r Brenin.

O dan y ddwy ffenest yma , mae dwy ffenest lle mae Gabriel yn rhoi’r newyddion da i Mair am eni gwyrthiol yr Iesu. Ar y dde i’r ffenestri canol, cawn ffenest Sant Deiniol (Esgob cyntaf Bangor), wedyn Santes Frideswide (nawddsant Rhydychen) ac yn olaf Santes Catherine o Alexandria bell – gallwch ei gweld hi’n hawdd gan ei bod yn gafael mewn olwyn. Dyma santes boblogaidd yn yr Oesoedd Canol a gafodd ei chondemnio i farwolaeth am fod yn Gristion, a’i harteithio gydag olwyn â phigau arni – peth arferol yn yr Oesoedd Canol. Ond trodd yr olwyn yn llwch cyn ei tharo, a bu’n rhaid ei lladd mewn ffordd arall. Enwyd yr Olwyn Catrin welwn ni ar Noson Tân Gwyllt er cof am y santes ddewr



hon o’r Aifft. Meddyliwch fod rhaid rhoi hon yn y ffenest liw, a gadael Sant Tyrnog druan i fod ar un o’r ffenestri diweddarach!

Gyda llaw, yn ‘*Lives of British Saints, Baring -Gould*’ mae’r awdur wedi copïo llun saint o ffenestri gwydr eglwysi ledled y Deyrnas Unedig, Llydaw, a Ffrainc. O’r 23 llun, mae 4 llun wedi’u copïo o ffenest Eglwys Llandyrnog – Sant Deiniol, Santes Marchell, Santes Gwenfrewi a Sant Asa(ff).

*Ann Jones Evans*

# Diwrnod crempog 2023

Mae Diwrnod Crempog eleni ar 21 Chwefror! Wyddoch chi fod 'na hen arferiad Gwyddelig sy'n dweud y dylech gadw celyn sydd dros ben o'r Dolig ar gyfer cynnau tân i wneud crempogau ar Ddydd Crempog?

Nawr, mae dydd Mawrth Ynyd, y diwrnod cyn Dydd Mercher y Lludw, yn ddiwrnod pwysig yn y calendr Cristnogol – sef diwrnod cynta'r Grawys. Mae dydd Mawrth Ynyd bob amser yn disgyn 47 diwrnod cyn Sul y Pasg, felly mae'r dyddiad yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, rhwng Chwefror 3 a Mawrth 9.

Mae enw'r diwrnod yn deillio o'r gair Saesneg '*shrive*' sy'n golygu edifarhau am eich pechodau trwy gyffes. Mae'r syniad hwn yn hollbwysig i ddydd Mawrth Ynyd gan fod y Grawys yn amser i Gristnogion fyfyrio ar eu bywyd a chyfaddef unrhyw bechodau.

Ond, efallai eich bod chi'n pendroni, beth sydd gan hyn i'w wneud â chrempogau? Yn draddodiadol, dydd Mawrth Ynyd oedd y cyfle olaf i ddefnyddio wyau a braster cyn cychwyn ar yr ympryd ar gyfer y Grawys. Mae gwneud crempogau yn ffordd syml a blasus o ddefnyddio'r holl gynhwysion hyn!

Nawr, mae'n fwy cyffredin yn Lloegr i glywed yr enw '*pancake day*' yn hytrach na Dydd Mawrth Ynyd. Ond i Gristnogion, mae'r diwrnod yn dal i fod ag ystyr arbennig ac yn arwydd o ddechrau'r Grawys.

Wyddoch chi fod dydd Mawrth Ynyd, yn 1961, ar y 14eg o Chwefror; yr un diwrnod â Dydd San Ffolant! Nid yw'r ffenomen hon yn mynd i ddigwydd eto tan 2040!!

***Sut i wneud crempogau syml***? Y cyfan sydd ei angen yw 100g o flawd, 2 wy, 300ml o laeth a sblash o olew llysiau. Chwisgiwch y cynhwysion gyda'i gilydd i mewn i cytew llyfn cyn coginio'ch crempogau am 1 munud ar bob ochr nes eu bod yn euraidd. Gweinwch gyda thopin blasus fel siocled neu lemon a siwgr. Mwynhewch!!!





Yng nghyfarfod mis Rhagfyr, clywsom ni unwaith eto y stori ryfeddol am eni Iesu Grist. Fe wnaethom ni bob math o weithgareddau, a phob un yn portreadu gwahanol rannau o'r stori. Yna daeth pawb at ei gilydd wrth y preseb â'r plant yn actio'r stori, cyn mwynhau bwffe hyfryd.

Cafodd y trefnwyr seibiant haeddiannol ym mis Ionawr, ond byddan nhw yn eu holau, yn eiddgar ac wedi'u bywiocáu, bnawn dydd Sul, 12 Chwefror! Dewch i neuadd y pentre am 3.30 – blant, cofiwch ddod ag oedolyn gyda chi.

# Undeb y Mamau

Cynhaliwyd Gwasanaeth Adfent ym mis Rhagfyr, a chychwynwyd y flwyddyn newydd gyda chinio blasus yn Nantyfelin, Llanrhaeadr.

**Diolch o galon i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau at y rhifyn hwn**

**Cyngor Sir Ddinbych**

**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*

*Neu gadewch neges ar Facebook*

# Gair gan yr offeiriad

Mae bywyd yn mynd yn ei flaen yma yng nghefn gwlad Gogledd Cymru a ninnau bron â gweld diwedd y gaeaf cyntaf heb gyfnod clo na chyfyngiadau pandemig byd-eang. Ddechrau Chwefror fel hyn, daw dau beth i'r meddwl yn ôl trefn amser. Ar Chwefror 2il bydd Gŵyl Fair y Canhwyllau, ac, wrth gwrs, ar y 24ain bydd hi'n flwyddyn gron ers i danciau Rwsia ruo dros ffiniau Wcráin. Wrth drafod crefydd yn y cyd-destun hwn, mae mwy na 70% o Rwsiaid a 70% o Wcrainiaid yn Gristionogion Uniongred, ac felly, fe fyddan nhw yn dathlu Gŵyl Fair y Canhwyllau ar Chwefror 15fed.

Mewn eglwysi ar Ŵyl Fair, byddant yn dathlu'r digwyddiad pan aeth Joseff a Mair â Iesu i'r deml a chael cyfarfod arwyddocaol efo dau berson. Y cyntaf, Simeon, wedi hir oes o ddisgwyl a gweddïo ar Dduw oedd yn sylweddoli bod y Crist ei hun, y 'daioni absoliwt' wedi dod i mewn i'r deml. Caiff afael yn y baban Iesu a bendithio'r pâr ifanc cyn datgan ei neges chwerw-felys bod iachawdwriaeth wedi dod i Israel, ond y byddai Mair hefyd yn dioddef '*fel petai cleddyf yn trywanu dy enaid di*'.

Yn wir, fe ddioddefodd enaid Mair, yn enwedig wrth weld ei mab yn gorfod cario ei groes ei hun ar y Via Dolorosa, ac wrth y groes. Wyddai hi ddim y pryd hwnnw y byddai Iesu'n concro angau.

Yr ail berson i Mair a Joseff gyfarfod y diwrnod hwnnw yn ôl Luc, oedd Anna – hen wraig grefyddol iawn a weddïai'n gyson ddydd a nos yn y deml. Sylweddolodd hithau hefyd pwy oedd Iesu –'*daeth at Mair a Joseff a dechrau moli Duw a diolch iddo*'. Aeth hithau fel Simeon i rannu'r newyddion da am ddyfod Iesu i'n byd.

Gwelir pa mor amlwg ydi cryfder ffydd Gristnogol cymaint o bobl yn y rhyfel yn Wcráin. Er y difrod i gyd, gweddïant fel un am heddwch, a dangosant fwy fyth o gariad yn Nuw a thuag at eu cyd-ddyn.

Ac wrth i ni fwynhau bywyd yma yng Ngogledd Cymru, bydded i fendith Duw agor ein calonnau i ryfeddodau'r byd o'n cwmpas yn ystod y mis i ddod. Cofiwch fod croeso i chi ymuno â ni unrhyw amser yn Ardal Genhadol Dinbych.

*Y Parch Martin Pritchard*
*Offeiriad Cyswllt Cenhadaeth a Chymuned*
*Ardal Genhadu Dinbych*




J & G

TYRE SERVICES



CAR - TRUCK -
FARM TYRE SPECIALISTS
BATTERIES & EXHAUSTS

Unit 1
Dyffryn Trading Estate
Rhyl Road
Denbigh
LL16 5SJ

01745 817676
07775 717602



# Hanesion Hazel

O’r diwedd, mae’r dyddiau’n ymestyn fesul cam ceiliog, a’r newyddion da ydi ein bod ni’n cael dwy awr ychwanegol o olau dydd rhwng dechrau a diwedd mis Chwefror. Mae Gogledd yr Iwerydd ar ei oera’ rŵan, a dydi Llif y Gwlff ddim yn dylanwadu llawer, ond mae sŵn adar i’w glywed a llawer o flodau’r Gwanwyn yn dechrau codi i’r wyneb. Y lili wen fach ydi un o’r rhai cyntaf yn yr ardd, ac ar y cloddiau lle’r oedd tai i’w cael ers talwm. Ar safle hen dyddynnod ar Fryniau Clwyd oedd yn llawn bwrlwm unwaith, mae blancedi o eirlysiau yn ymddangos flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Mae’r lili wen fach fregus fel petai’n nodio ei phen arnon ni, ac yn ein cyfarch. Daw allan ddiwedd Ionawr ac mae hi ar ei gorau ddechrau Chwefror. Wyddech chi mai morgrug – yn ôl Gerddi Kew – sy’n chwalu’r hadau drwy eu cario i’w nythod, eu bwyta a chael gwared â rhai o’r hadau? Mae ’na ffordd haws i chi wasgaru’r hadau a chael sioe o wynder heb help yr hen forgrug. Tynnwch glympiau ohonynt ar ôl blodeuo, a’u rhannu’n glympiau llai. Dw i’n edrych ’mlaen i weld faint o eirlysiau fydd wedi eu taenu dros yr ardd ’leni ar ôl i mi fod wrthi’n brysur yn eu rhannu y llynedd. Er ei bod hi mor gyfarwydd i bawb yn y Deyrnas Unedig, cynefin y lili wen fach mewn gwirionedd ydi Ewrop a’r Dwyrain Canol. Mi ddaeth hi dros y môr yn gyntaf yn sgil y Rhufeiniaid.



Os ydech chi’n ffansïo taith wanwyn, pan nad ewch chi ar daith gylch hanesyddol Llangynhafal. Cewch weld adfail tri hen dŷ ffarm, yn agos i *Lodge Farm* – roedd rhywun yn byw ym Mhen-y-Bryn a Phentre’ Ucha’, ar ben Lôn y Pentre nes 1901, a gadawyd Ty’n-y-Pistyll am byth yn 1891. Mae carped o eirlysiau ym Mhentre Ucha’ yr adeg hon o’r flwyddyn ac maen nhw wedi ymestyn reit i lawr at y nant.

Lle da i ddechrau’r daith ydi’r *Golden Lion*, Llangynhafal. Ewch yn syth i fyny am Langwyfan, a throwch i fyny ar y dde am Fferm y Pentre, dal i gerdded fyny’r llwybr, drwy ddwy giât, a gwyro i’r dde i ymuno â’r llwybr sy’n mynd uwchben Plas Dolben i Eglwys Llangynhafal. Fel Llwybr Tyrnog, mae’r daith gylch yn mynd o gwmpas pentre’ Llangynhafal (tua 4.3milltir). Mae arwyddion yn llawn gwybodaeth i’w cael yma ac acw – mae’n rhoi cyfle i gerddwyr gael saib bach wrth eu darllen! Os oes gennych ddiddordeb, gallwch lawrlwytho’r daith ar y wefan www.denbighshirecountryside.org.uk/milltiroedd-cymunedol/.

Peidiwch ag anghofio am fylbiau blodau sy wedi bod yn y tŷ’n codi’n calonnau dros y gaeaf, ac wedi darfod erbyn hyn. Adeg yma o’r flwyddyn, rydw i bob amser yn eu plannu nhw y tu allan er mwyn eu mwynhau am flynyddoedd i ddod. Maen nhw’n hoffi border sy’n cael digon o haul, a draeniad da, a gallan nhw flodeuo am sawl blwyddyn. Rywsut, mae eu plannu yn fy rhoi mewn ‘hwylie garddio’, a gwneud i mi feddwl be yn union sy’ angen ei wneud. Mi fydda i’n hau hadau tomatos fis yma – *Alicante* bob tro, gan eu bod nhw’n aeddfedu’n ffrwyth maint canolig, ac yn blasu’ dda. Mi dries i fath arall y llynedd ac roedden nhw’n flasus iawn mewn salad – *Black Cherry*. Dydi’r enw ddim yn wreiddiol iawn, ond mae ei liw yn anarferol ac roedd blas melys, cryf, arbennig arnyn nhw – roedd hi’n demtasiwn i’w pigo’n syth! Roedden nhw’n dal a dal i dyfu a chynhyrchu ffrwyth tan fis Rhagfyr. Daethant i stop efo’r pwl oer iawn gawson ni. Allwch chi ddim curo tomatos cartref, hyd yn oed os mai dim ond dau blanhigyn mewn potyn y tu allan sy’ gynnoch chi. Mi fydda i’n rhoi’r hadau mewn ffrâm dyfu trydan i egino, wedyn eu rhoi mewn potiau bach. Dyna le fyddan nhw nes i’r tywydd gynhesu digon i’w rhoi yn y tŷ gwydr. Gobeithio y cawn ni dywydd cynnes yn fuan!

*Hazel*

# Rysáit

**Cig Oen Cymreig efo cennin, gellyg a sinsir**
**Digon i 4/5**

**Cynhwysion**
1 Cilogram o gig oen wedi ei dorri'n ddarnau bach
1 Nionyn maint canolig
2 Genhinen, wedi eu torri'n fân
4 Gellygen, wedi eu torri i 4 chwarter, a'r canol allan
2 Lwy de o sinsir mâl
Tua modfedd o wreiddyn sinsir, wedi'i gratio
10 owns hylifol o stoc cig oen
Gwydraid o win gwyn
Blawd i roi ar y cig
Oel i goginio
Pupur a halen i roi blas

**Dull**
Cynheswch y popty i 190 °C/Nwy 4.
Gorchuddiwch y cig oen efo mymryn o flawd wedi ei gymysgu efo sinsir mâl a'i frownio yn yr oel. Ffrïwch y darnau cig mewn sypiau bach ar y tro i arbed gorlenwi'r badell. Rhowch nhw o'r neilltu mewn dysgl caserol.
Rhowch y nionyn, a'r cennin yn y badell, a'u ffrio nes yn feddal. Ychwanegwch y sinsir wedi'i ratio, y gellyg, y gwin gwyn a'r stoc; dowch â'r cwbl i'r berw, a rhoi pupur a halen.
Ychwanegwch y cymysgedd at y cig oen a'i gymysgu'n dda. Rhowch fwy o stoc os ydi o'n edrych yn rhy sych.
Coginiwch yn y popty am 2–2½ awr, nes bod y cig yn frau iawn.
Gweinwch efo tatws stwnsh hufennog.

*Mary Steel*



# Cymdeithas Seryddiaeth Llandyrnog

Cynhaliwyd cyfarfod cymdeithasol yn y Ceffyl Gwyn, Hendrerwydd yn ddiweddar, ac rydym ni wedi bod yn cyfarfod yn y Golden Lion, Llangynhafal. Rydym wedi bod yn brysur dros y misoedd diwethaf yn arsylwi'r planedau – pan oedd y tywydd yn caniatáu wrth gwrs! Rydym ni hefyd wedi bod yn rhannu delweddau astroffotograffeg, a'r newyddion am y gofod a seryddiaeth diweddaraf ar ein cyfrif *Whatsapp* a'n tudalennau *Facebook*.

Nos Wener 27 Ionawr, roedd ein cyfarfod yn *Amgueddfa Gwefr Heb Wifrau*, Dinbych. Cawsom sgwrs gan David a thaith o amgylch yr amgueddfa, dangoswyd i ni sut i osod a defnyddio telesgop. Trafodwyd y newyddion a'r datblygiadau diweddaraf mewn seryddiaeth ac archwilio'r gofod. Dathlwyd pen blwydd Isaac Roberts, yr arloeswr lleol mewn astroffotograffeg.

Yn ddiweddarach yn y flwyddyn byddwn yn cyfarfod eto yn yr amgueddfa, a'r pwnc fydd Radio-seryddiaeth.

*Chris Jones*




*Uchod: Aelodau'r gymdeithas yn Amgueddfa Gwefr heb Wifrau*

*Chwith: Tynnodd Gareth Jackson, un o aelodau'r Gymdeithas, y llun gwych hwn o'r Saith Seren Siriol – y Pleiades. Mae'r gaeaf yn adeg dda i weld y cytserau mawr yn wybrennau'r Gogledd.*

# Pleserau defnyddio'r ffrïwr aer

A yw ffrïwr aer yn un arall o'r teclynnau hynny rydyn ni'n eu prynu ac mae'n addurn yn y gegin, neu ydyn ni'n mynd i'w ddefnyddio'n aml? Dwi'n tueddu i fod braidd yn fyrbwyll ac yn enwog am beidio â gwneud llawer o waith ymchwil – mae bywyd yn rhy fyr i Gwglo faint yw cost coginio sglodyn pysgodyn (gair Geiriadur yr Academi am *fish finger*!) yn y popty.

Neu felly yr oeddwn i, nes i fy nghyflenwr ynni fy atgoffa bod ein bil trydan wedi dyblu, bron. Gwnaeth hynny i mi feddwl am y gost o goginio hanner dwsin o sglodion pysgod, a sut i arbed trydan.

Mae'n debyg bod defnyddio popty arferol yn costio tua 60c yr awr i chi – felly mae'n siŵr erbyn iddo gynhesu, coginio'ch sglodion pysgod neu selsig neu beth bynnag, bydd eich 60c wedi mynd. Ond fe ddarllenais fod ffrïwr aer 1700w a ddefnyddir ar gyfartaledd am 30 munud y dydd yn costio tua £2.10 yr wythnos. Wel, fe wnaeth hynny wneud i mi feddwl.

Ond mae'r pethau hyn yn costio rhwng £50 o ganol Lidl – sy'n ardderchog yn ôl y sôn – i bron iawn £300 gan gwmni sy'n swnio fel cymeriad cartŵn, Ninja. Ond ar ôl gwneud ymholiadau yn lleol, dywedodd y ferch ifanc yn y siop wrthyf fod mwy o siawns y byddai Nadhim Zahawi yn llenwi ffurflen dreth yn gywir nag y byddai'n bosib dod o hyd i un o'r rheini. Wel, dyna ni – dim gobaith.

Wrth bori yn y cyfryngau cymdeithasol, fe welais hysbyseb am un ar werth yn lleol iawn. Roedd merch wedi cael dau yn anrheg ac roedd un ar werth yn rhad. Felly, meddyliais, 'Pam lai?'

Wel, wir i chi – mae Ifan, fy mab, a minnau ar ben ein digon! Dydw i ddim yn arbenigwr, ond yn y bôn dim ond popty bach yw'r teclyn yma gydag element cryf a ffan. Hefyd, a dyma sy'n wych, mae ganddo amserydd syml iawn felly does dim gobaith o gwbl o losgi dim byd. Oni bai wrth gwrs eich bod wedi anghofio darllen y cyfarwyddiadau…

Iawn, felly beth rydyn ni wedi'i wneud ag o? Wir i chi – rwy wedi'i ddefnyddio bob dydd ers i mi ei brynu. O ddifri – rhaid i chi gael un! Roeddwn wedi fy nghyffroi cymaint, prynais un i fy merch iau ar gyfer y Nadolig ac mae ei dyweddi wrth ei bodd – yn arbrofi drwy'r amser gydag o. Mae o'n gweithio yn y diwydiant beiciau modur, yn eu gwerthu a gofalu amdanyn nhw. Mae beicwyr modur – dynion (yn bennaf!) yn eu hoed a'u hamser – yn cymharu *air friers* yn ystod eu hawr ginio. Mae mor ddrwg â hynny.

Fy arbrawf diwethaf gyda'r ffrïwr oedd brest cyw iâr wedi'i thorri yn ei hanner, wedi'i llenwi â stwffin cartref a'i lapio mewn cig moch. Bymtheg munud yn ddiweddarach, roedd yn barod.

Awydd bwyd y peth cyntaf yn y bore? Rhowch ddwy sleisen o facwn ynddo – ewch am gawod a newid – brechdan cig moch yn barod mewn deg munud. Dim ffrio na grilio na mwg ym mhobman, dim ond arogl hyfryd bacwn yn coginio. Yr un peth gyda selsig – byddwch yn ofalus, gan eu bod yn coginio mewn dim o amser!

Rhaid cael *croutons* gyda chawl, felly torrwch sleisen o fara'n ddarnau a rhowch ychydig o olew olewydd drostyn nhw. Mewn pedwar munud – *croutons* perffaith.

Dyma enghraifft ryfedd, ond mae'n gweithio. Defnyddiwch dorrwr afalau i dorri tatws yn *wedges*. Berwch nhw am ychydig, rhowch ychydig o halen a phupur a beth bynnag sy'n mynd â'ch bryd, arllwyswch olew olewydd drostyn nhw – *wedges* tatws blasus mewn dim o amser.

Os mai'r unig sglodion tatws rydych chi'n eu bwyta bellach yw sglodion popty, wel coginiwch nhw yn y ffrïwr aer. Does dim byd o'i le ar trit bach bob hyn a hyn, nag oes?!

Gair i gall – gallwch brynu papurau leinio er mwyn gwneud glanhau'r teclyn yn haws – ond mae hyn yn gymharol hawdd, beth bynnag. Peidiwch â gadael un o'r rhain yn y popty a'i droi ymlaen – bydd y ffan yn ei sugno i fyny a bydd yn glynu wrth yr element gyda

# Y ffrïwr aer: parhad

chanlyniadau trychinebus posibl.

Yn gyffredinol, o'i gymharu â bwyd wedi'i ffrio, mae bwyd o'r ffrïwr aer yn opsiwn iachach hefyd oherwydd bod llai o galorïau ynddo, a allai leihau'r risg o glefydau cronig yn y dyfodol agos. Ond peidiwch ag anghofio mai'r bwyd rydyn ni'n ei fwyta fydd yn rhannol gyfrifol am benderfynu ein tynged. Mae bwydydd maethlon fel ffrwythau, llysiau, grawn cyflawn a physgod gystal yn y ffrïwr aer ag y maen nhw mewn sosban neu mewn popty. Chi sydd i dewis.

Yr unig ofid sydd gennyf yw 'mod i heb brynu un mwy yn y lle cyntaf. Ond un diwrnod, pwy a wyr – efallai caf i un o'r rhain!




*Bryn Davies*

# Capel y Dyffryn

Casglwyd £232.50 tuag at y Banc Bwyd yn y Gwasanaeth Nadolig y Plant.  Diolch i bawb

**Y Gymdeithas** Nos Lun 9 Ionawr, cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi bendithiol iawn

Nos Lun 23 Ionawr cynhaliwyd 'Noson Talentau' gyda'r plant a'r ieuenctid yn dangos eu talentau a'u diddordebau – noson gofiadwy

**Gwasanaethau**

| | | |
|---|---|---|
| 5 Chwefror | 9.45 | Sul Teulu |
| 12 Chwefror | 9.45 | Parch John Owen |
| 19 Chwefror | 10.00 | Oedfa'r Fro - Dyffryn |
| 26 Chwefror | **5.00** | Parch Huw Dylan |

# Atgofion Eira Mawr 1963

Penawdau'r *Free Press* ym mis Mawrth 1963:
*March Blizzard Brought chaos everywhere*
*Roads blocked by 13ft drifts*
*Sheep farmers lose many lambs*
*Snow clearing bill will be £50,000 (£1 miliwn heddiw!)*

60 mlynedd yn ôl cychwynnodd yr eira Ddydd Sant Steffan hyd 6ed Mawrth 1963, gyda 45cm o eira'n disgyn ar rai adegau, a lluwchfeydd eira o tua 3.9m yn Llandyrnog. Dyna'r gaeaf oeraf ers dros 200 mlynedd a'r 3ydd oeraf mewn hanes – dim ond gaeafau 1683/4 a 1739/40 oedd yn waeth! Be am bentre' Llandyrnog? Dyma atgofion Elwyn ac Olga, Ger y Llan o'r cyfnod:

Roedd gyda ni rownd lefrith yr adeg honno. Lluwchfeydd mawr, yn enwedig yn ardal Llangynhafal, gan fod y gwynt o'r Dwyrain yn chwipio'r eira o'r bryniau a chau'r ffyrdd culion yn sydyn!

Un tro Margaret a minnau ar rownd lefrith yn yr hen lori *Bedford* yn dilyn aradr eira o Hirwaen am Langwyfan, a meddwl y bydden ni'n cael taith hwylus, ond honno'n mynd yn sownd yn yr eira ger *Lodge Farm*! Minne'n gorfod cerdded yn ôl i'r *Golden Lion, Llangynhafal* i gysylltu ag Elwyn, (dim ffonau symudol adeg hynny!!), ac Elwyn druan, oedd ar hanner godro, yn gorfod dod â'i dractor i dynnu ni'n ôl at y *Golden Lion*!

Dro arall, Elwyn yn gorfod cludo'r cratiau llefrith ar sled ar draws y gwrychoedd a chaeau at Fferm Llanbedr – ond wedi'r holl drafferth, doedden nhw ddim am dderbyn y llefrith!!

Dro arall, Tecwyn a Mona Morris heb fod allan o'r tŷ ers dyddiau ym Mhlas Fforddwr oherwydd y lluwchfeydd eira. Elwyn ar dractor a minnau'n eistedd mewn bwced tu blaen i'r tractor yn cario llefrith a bara iddyn nhw – hwythe mor ddiolchgar!

# Ysgol Bryn Clwyd

Y babanod: Mae'r plant wedi dechrau dysgu am arian a sut i adnabod darnau gwahanol o arian.



Eu testun newydd yw straeon traddodiadol a'r stori gyntaf roedden nhw wedi'i mwynhau oedd *Jac a'r Goeden Ffa*. Maen nhw wedi plannu eu ffa eu hunain ac mae 'na gyffro mawr i weld ffa pwy fydd y cyntaf i dyfu.

Y dosbarth iau: Bu'r plant yn cydweithio i gyfrif y siocledi sy'n weddill ar ôl y Nadolig a gwneud graff ohonyn nhw. Hefyd gwnaethon nhw siartiau bar o'r lliwiau mewn tiwb Smarties.



Aeth disgyblion Blwyddyn 6 i weithdy pontio Hanes yn Ysgol Brynhyfryd.

Mae sawl ymwelydd wedi bod i'r ysgol. Daeth y Parch. Martin Pritchard i'r ysgol i sôn am wrando ar ein cydwybod.

Mwynhaodd plant Blwyddyn 3 eu gweithgaredd a'u sesiynau canu gan Catherine Henderson, o gwmni Cerdd Cydweithredol Sir Ddinbych, fel rhan o'r Cynllun Gwasanaeth Cerdd Cenedlaethol newydd.



Daeth Llion Williams, sydd fwyaf enwog am actio George yn y gyfres *C'mon Midffild*, i roi cyflwyniad gan y cwmni Theatr mewn Addysg, Mewn Cymeriad. Roedd y cyflwyniad yn rhoi gwers hwyliog am hanes y Gymraeg a phwysigrwydd siarad Cymraeg bob dydd.




Daeth yr awdur, Georgia Byng, sydd fwyaf enwog am ei llyfrau am Molly Moon, i'r ysgol i sôn am ei llyfr diweddaraf, *Albi The Glowing Cow Boy*.
Felly mae hi wedi bod yn ddechrau prysur iawn i'r tymor!

# Dewch i gyfarfod â'ch Cynghorydd Cymuned



**Emyr Morris**
Cefais fy ngeni a'm magu ym mhentre Prion gan fynychu'r ysgol gynradd yno ac yna Ysgol Glan Clwyd. Rwyf yn rhugl yn y Gymraeg.

Dechreuodd fy nghysylltiad â Llandyrnog 40 mlynedd yn ôl pan y bu i mi gyfarfod â fy wraig Anwen yng Nghlwb Ffermwyr Ieuanc Llandyrnog ac mae'r gweddill yn y llyfrau hanes. Wedi dod yn daid a nain am y tro cyntaf 'rydym yn ffortunus fod y mab â'i deulu'n byw ar ein fferm deuluol.

Ar ôl mynychu'r coleg, mi es i weithio i'r banc lle y cefais yrfa o 36 mlynedd. Mi wnes symud ymlaen drwy nifer o adrannau gan ddod yn Rheolwr Banc ac yna gweithio yn Swyddfa'r Cyfarwyddwr lleol yng Nghaer gyda chyfrifoldeb dros Ogledd a Chanolbarth Cymru a Chaer. Roedd y swydd yn un werth chweil a heriol ond mi wnes i fwynhau'r gwaith rhyngweithiol gyda chwsmeriaid ac yna gyda thîm arbennig o staff.

Ers ymddeol 8 mlynedd yn ôl mi gadwais gysylltiad hefo fy hen gwmni gan fod yn aelod ar Bwyllgor Cronfa Lles Gweithwyr y Banc. Rwyf hefyd yn is-gadeirydd y pwyllgor.

Ar ôl mynychu nifer o gyfarfodydd y Cyngor Cymuned penderfynais wneud cais i fod yn Gynghorydd ym mis Mai 2022 ac roeddwn wrth fy modd pan oeddwn yn llwyddiannus. Mae'n bleser gen i gynrychioli'r gymuned a, gyda chyd-gynghorwyr eraill, gwneud penderfyniadau ar nifer o wahanol feysydd a phynciau sydd yn effeithio ar fywyd pob dydd pobol. Mi fyddwn yn annog pawb i ddod draw i'r cyfarfodydd i weld a chlywed y gwaith. Rwyf hefyd yn aelod o is-bwyllgor cyllid y cyngor.

Rydym i gyd yn lwcus iawn i fyw mewn ardal mor hyfryd, ond rwy'n teimlo bod yna agweddau o fywyd pentref a chefn gwlad sydd wedi newid ac nid er y gorau bob tro. Dyma un o'r rhesymau y penderfynais ddechrau prosiect i weld a allai'r swyddfa bost a'r siop yn y pentref gael eu pwrcasu a'u sefydlu fel cymdeithas er budd y gymuned. Mae'r gwaith yn symud ymlaen ac rwy'n ddiolchgar i'r cyfarwyddwyr eraill a'r gymuned eang am eu cefnogaeth.

Pan fo amser yn caniatáu, rwyf yn hoffi gyrru fy nghar clasurol, chwarae'r piano a'r organ a gweithio ar ein hachau teuluol.

DBP
Denbigh
Building
Plastics
*SUPPLIERS & INSTALLERS*
*U_PVC windows, doors, rockdoors, secondary double glazing, sealed units. Conservatories, porches, garage doors, fascias, gutters, dry verge system, Firestone rubber roofing and canopies.*
Unit 7
Colomendy Industrial Estate
Denbigh LL16 5TA
01745 818849
**Open Mon—Fri 7.30am—5 pm**
**Sat 9 am—12 pm**

# Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Ionawr Cyngor Cymuned Llandyrnog

⇒ Cais diwygiedig am 5 pod gwyliau yng Nghae’r Fedwen.

⇒ Apêl gan Gyngor Sir Ddinbych am gynghorydd i gynrychioli Llandyrnog ar bwyllgor yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol – cytunodd Cynghorydd Butler i fod yn aelod o’r pwyllgor.

⇒ Ymddiswyddodd y Cynghorydd Thomas o’r Cyngor er mwyn canolbwyntio ar ei fusnes – collir ei arweiniad cadarn a’i ddoethineb.

⇒ Yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd Thomas, bydd rhaid i’r Cyngor benodi cynrychiolydd arall ar Fwrdd Llywodraethwyr yr Ysgol, ac fe gaiff ei ystyried ar ddyddiad yn ddiweddarach.

⇒ Bydd Mr Burrows, Swyddog Digidol Sir Ddinbych yn mynychu cyfarfod yn y dyfodol i roi’r diweddaraf ar unrhyw bartneriaeth Cymunedol Ffeibr *Openreach* yn yr ardal.

⇒ Adeilad newydd ym Mhenpalmant – dyddiad penderfyniad wedi ei ymestyn oherwydd bod angen gwneud arolwg ar bresenoldeb ystlumod yno.

⇒ Cafwyd ymddiheuriad am ei absenoldeb gan David Jones, Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Fodd bynnag, bydd yn ceisio delio ag unrhyw ymholiad. Cyfeiriad ei e-bost ydi david.jones4@nhtwales.pnn.police.uk.

⇒ Estyniad deulawr tu cefn i Gwynfryn.

⇒ Symudwyd diffibriliwr Cae Nant yn barod i’w ddefnyddio, ond nid oedd ei angen. Mae nawr ’nôl yn ei le’n barod i’w ddefnyddio eto.

⇒ Mae posteri baw cŵn yn cael eu hargraffu a byddan nhw’n cael eu dosbarthu’n fuan.

⇒ Mynegwyd pryder bod dipyn o fwd ar y ffordd o Langwyfan i Langynhafal – rhoddwyd gwybod am y sefyllfa.

⇒ Safle Arla – cadarnhaodd Procter a Johnson eu bod yn gobeithio cychwyn cynhyrchu yn 2023, ac yn cydnabod bod oedi wedi bod oherwydd problemau yn y gadwyn gyflenwi.

⇒ Dosbarthodd y Cynghorydd Borthwick daflenni i dai yn y pentre, ac mae’n barod i drefnu hyfforddiant TG sylfaenol yn yr Ystafelloedd Coco, ond ychydig o ymateb gafwyd hyd yn hyn.

⇒ Cafwyd cais am fin sbwriel ychwanegol yn ardal Fforddlas a bin graean ychwanegol yn ardal Llangwyfan – aros am atebion.

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**

Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Catherine ac Ed Howarth, Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies (cofnodion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams.


GLYN EVANS AUTOCLINIC

Canolfan Trwsio Ceir

Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA



GWAITH YSWIRIANT

TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU

CEIR I’W BENTHYG

GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I LAWR

01745 815141
07808970364

E-bost: evansautoclinic@btconnect.com